Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Pitian Patian Llanwnda**

**Ty Hen**
**Llanwnda**
**Caernarfon**
**LL54 5SD**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

13/08/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Ynglŷn âMeithrinfa Pitian Patian Llanwnda

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarpeir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Pitian Patian Llanwnda Cyf |
| Lleoedd cofrestredig | 52 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 9 Hydref 2019 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Na |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hybu'r iaith Gymraeg a'i diwylliant? | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae plant wedi setlo, yn hapus ac yn cael profiadau buddiol a phwrpasol yn gyson yn y lleoliad. Maent yn gwneud dewisiadau am weithgareddau y maent yn awyddus i gymryd rhan ynddynt. Rhoddir rhyddid iddynt i symud rhwng yr holl gyfleoedd a gynigir o fewn y lleoliad. Mae gan y plant berthynas gynnes â staff ac maent yn rhyngweithio'n gadarnhaol â nhw trwy'r lleoliad. Mae sgiliau cymdeithasol ac annibyniaeth plant yn dda ac yn datblygu'n bwrpasol yn ôl eu hoedran.

Mae'r staff yn cadw plant yn ddiogel ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad yn effeithiol ac yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf o'r rhyngweithio rhwng staff a phlant yn gynnes ac yn gadarnhaol. Mae'r staff yn cefnogi anghenion y plant sy'n mynychu yn fedrus i sicrhau eu datblygiad personol. Maent yn cynllunio ac yn cynnig ystod o weithgareddau pwrpasol i'r plant yn seiliedig ar themau amrywiol. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys gweithgareddau cyson yn seiliedig ar ddiddordebau ac awgrymiadau'r plant.

Mae'r amgylchedd yn groesawgar, gyda'r ardaloedd mewnol wedi eu trefnu yn effeithiol. Mae gweithdrefnau hylendid a rheoli heintiau yn gyson o fewn y lleoliad. Mae'r ystafelloedd mewnol a'r ardal allanol yn lân, yn ddiogel ac yn addas ar gyfer oedran y plant. Mae asesiadau risg perthnasol yn weithredol gan sicrhau bod yr holl risgiau posibl wedi cael eu lleihau'n effeithiol. Mae gan y lleoliad ystod gwerthfawr o deganau ac adnoddau o ansawdd da ar gyfer gweithgareddau allanol a mewnol.

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y gwasanaeth yn dda. Mae'r staff yn cael eu harwain yn dda ac maent yn gweithio'n dda gyda'i gilydd. Mae rhieni'n siarad yn uchel am y lleoliad, y cyfleoedd a gynigir, a'r gofal cynnes y mae eu plant yn eu derbyn.

| Llesiant | Da |
|---|---|

Mae plant yn cyrraedd y lleoliad yn hapus iawn ac yn ymdopi'n dda wrth wahanu o'u rhieni / gwarchodwyr. Maent yn hollol gyfforddus yn eu hamgylchedd ac yng nghwmni'r holl staff. Mae llawer o'r plant hŷn yn cyrraedd yn eiddgar iawn i'r lleoliad. Maent wedi ffurfio perthnasedd cryf â staff a'i gilydd, ac mae hyn yn cael effaith glir ac effeithiol ar eu lles. Mae'r gofal y maent yn ei dderbyn yn unol â'u hanghenion unigol o'r foment y maent yn cyrraedd. Er enghraifft, mae plant yn cyrraedd i mewn yn hapus ac yn barod i ddechrau ar weithgareddau. Er fod angen rhywfaint o gysur a sicrwydd ar ychydig iawn o blant eraill, mae cefnogaeth staff iddynt yn sicrhau eu bod yn ymgartrefu'n gyflym i mewn i weithgareddau. Mae plant yn deall bod staff yn ymateb yn llwyddiannus i'w hanghenion a'u gofynion. Er enghraifft, roeddynt yn awyddus i staff eistedd ar y llawr i'w cynorthwyo a'u cefnogi mewn gweithgareddau.

Mae plant wedi meithrin cyfeillgarwch buddiol â'i gilydd ac yn gweithio ar y cyd yn effeithiol. Er enghraifft, roedd y plant ieuengaf yn cydweithio i adeiladu trac ar gyfer trên, ac yn chwarae rôl gyda thegan y car heddlu. Mae bron pob un ar draws y lleoliad yn amyneddgar yn aros eu tro yn y gweithgareddau. Er enghraifft, plant yn rhannu adnoddau yn yr ardaloedd amrywiol ac yn cymryd eu tro gyda'r teganau ar gael iddynt. Buont hefyd yn cyd-weithio'n effeithiol wrth dacluso ar ddiwedd sesiynau yn barod ar gyfer amser byrbryd.

Mae plant yn cyfathrebu'n llwyddiannus gyda'r staff ac yn dangos diddordeb cadarnhaol mewn gweithgareddau. Mae bron pob plentyn yn dangos chwilfrydedd ac yn archwilio'r amrywiaeth o gyfleoedd chwarae sydd ar gael iddynt. Er enghraifft, mae plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae megis chwarae rôl gyda'r dillad archarwyr, gan drafod eu gallu arbennig ynghyd a mwynhau chwarae yr offer cerddoriaeth. Yn ogystal, roedd cyswllt gyda'r lleoliad ag un o aelodau tîm Prydain yn y Gemau Olympaidd. Treuliwyd cyfnod yn dilyn thema y gemau olympaidd gan gynnwys ail greu y cylchoedd olympaidd. Crewyd arddangosfa gwerthfawr o'u gwaith a lluniau o ymweliad yr unigolyn a'r lleoliad.

Mae plant yn ymwybodol o deimladau eraill yn y lleoliad ac fe'u hanogir i benderfynu ym mha weithgareddau i gymryd rhan yn seiliedig ar eu teimladau a'u hoffterau.. Er enghraifft, gwelwyd plant yn pryderi am blentyn oedd yn anhapus. Trwy gydol yr arolwg, clywyd plant yn chwerthin ac yn mwynhau gyda'r plant ieuengaf yn galw 'hia' ar oedolion a'i gilydd. Ar ddiwedd sesiynau, gwelwyd y plant yn clirio adnoddau fel mater o drefn heb ysgogiad gan staff.

Mae plant yn datblygu eu sgiliau annibyniaeth ac yn ymwybodol o'u harferion dyddiol fel golchi dwylo cyn ac ar ôl bwyta. Gallant benderfynu pa rai o'r gweithgareddau pwrpasol y maent am gymryd rhan ynddynt. Enghraifft o hyn yw plant yn estyn adnoddau y maent am

eu ddefnyddio o’r bocsys storio. Fodd bynnag, collir cyfleoedd ar amser byrbryd i ddatblygu annibyniaeth plant ymhellach. Mae plant yn gwneud y rhan fwyaf o bethau drostynt eu hunain yn dda gydag anogaeth gadarnhaol gan staff.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae staff yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad yn bwrpasol gan sicrhau bod plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn derbyn hyfforddiant diogelu rheolaidd ac yn deall gweithdrefnau diogelu'r lleoliad yn effeithiol. Mae staff yn cofnodi damweiniau a digwyddiadau ac yn sicrhau eu bod yn cael eu harwyddo gan staff a rhieni. Mae pob aelod presennol o staff yn cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig, gan eu galluogi i ddelio â damweiniau yn briodol. Mae gan y lleoliad systemau effeithiol i storio a chofnodi gweinyddu meddyginiaethau yn ddiogel. Mae staff yn annog plant i fwyta'n iach, a gweinir bwydydd a baratowyd yn ffres ar y safle ynghyd â llaeth neu dŵr i'w yfed. Mae anghenion dietegol plant ag unrhyw alergeddau yn cael eu trin yn effeithiol iawn gan gynnwys nodi cynnwys cynhwysion bwydydd. Mae'r holl wybodaeth yn cael ei diweddaru gan sicrhau bod staff yn ymwybodol am anghenion unigol plant. Mae staff yn gwisgo cyfarpar diogelu personol (PPE) wrth baratoi a gweini bwyd i'r plant. Anogir plant i olchi eu dwylo cyn ac ar ôl bwyta.

Mae'r staff yn sicrhau perthynas gadarnhaol a chynnes gyda'r plant ar draws y lleoliad. Maent bob amser yn ofalgar ac yn amyneddgar wrth siarad â phlant. Roedd enghreifftiau o sgyrsiau yn cynnwys trafod pa weithgareddau yr hoffent gymryd rhan ynddynt ynghyd a beth oeddynt eisiau ar eu platiau amser cinio. Mae'r awyrgylch trwy'r lleoliad yn hamddenol ac mae'r plant yn gyfforddus. Mae staff yn cefnogi ymddygiad cymdeithasol plant yn yr ardaloedd mewnol ac allanol yn fedrus ac yn gadarnhaol. Er enghraifft, cant eu hatgoffa'n dawel am ymddygiad priodol a defnyddir digwyddiadau fel pwyntiau dysgu a chyfle i'w hatgoffa o'r hyn sy'n briodol. Er enghraifft gofyn 'Ydy ni fod i agor y drws? Be fydd yn digwydd? Brifo bysedd?' a chanmol cwrteisi – 'Tisio tost?' 'Ia plis.' 'O da iawn ti.' Mae rhyngweithio staff yn ystod gweithgareddau yn gyson ac yn effeithiol. Er hynny, mae anghysondeb yn y rhyngweithio adeg amseroedd bwyta. Ar ei orau, mae tua hanner y staff yn cymdeithasu'n hyderus gyda'r plant, yn trafod hoffterau ynghyd ag atgoffa i ddefnyddio cytleri yn briodol.

Mae staff yn hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygiad plant, trwy gynllunio ystod o weithgareddau pwrpasol. Mae enghreifftiau'n cynnwys rhif a llythyren yr wythnos, gwaith thematig, celf ynghyd a chwarae rol. Yn ystod cyfnod y Flwyddyn Newydd Tsieiniaidd, cyflwynwyd sesiynau blasu bwydydd tsieiniaidd ynghyd a gweithgareddau ar ddreigiau. Mae staff yn arsylwi y plant yn ffurfiol yn rheolaidd yn enwedig yn ystod gweithgareddau. Cedwir cofnodion effeithiol o'u datblygiad a chyflawniad a defnyddir y wybodaeth i gynllunio gweithgareddau pellach i gefnogi camau nesaf eu datblygiad. Mae'r staff yn hyrwyddo'r Gymraeg drwy gydol y lleoliad.

## Yr Amgylchedd Da

Mae amgylchedd y lleoliad yn ddiogel ac yn groesawgar. Mae y lleoliad yn sicrhau diogelwch pellach trwy y defnydd o deledu cylch cyfyng gyda'r sgriniau i'w monitor yn y brif swyddfa. Mae mynediad diogel i'r ardal awyr agored o ardaloedd mewnol y lleoliad ac mae welydd priodol yn ei amgylchynu i sicrhau preifatrwyd. Mae ymwelwyr yn cael mynediad gan staff drwy'r brif ddrws sy'n ddiogel a nodir amseroedd cyrraedd a gadael yn llwyddiannus. Mae asesiadau risg perthnasol ar waith ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Er hynny, adroddwyd fod archwiliadau dyddiol yn cael eu cwblhau ond nid oes prosesau wedi eu ffurfioli i nodi canlyniadau archwiliadau. Mae'r holl archwiliadau cynnal a chadw a diogelwch y safle yn cael eu cwblhau o fewn yr amser priodol. Mae enghreifftiau'n cynnwys larymau tân a mwg, diffoddwyr tân a phrofion trydanol. Mae'r cyfleusterau toiled yn briodol i'w hoedran, gyda sinciau sydd wedi'u lleoli'n briodol. Mae'r ardal newid clytiau yn bodloni gofynion preifatrwydd ac urddas plant. Mae glendid y lleoliad yn gyson dda, ac mae'n cael ei lanhau'n ddyddiol. Gwelwyd staff yn glanhau'n rheolaidd yn ystod y dydd, yn enwedig cyn ac ar ôl amser byrbryd. Mae deunyddiau glanhau yn cael eu storio ddiogel.

Mae'r safle'n gynnes ac yn darparu amgylchedd pwrpasol a llwyddiannus i hyrwyddo dysgu a datblygu plant sy'n mynychu. Mae natur eang ystafelloedd y lleoliad yn hyrwyddo chwilfrydedd plant ac yn meithrin eu hannibyniaeth drwy roi mynediad iddynt at weithgareddau ac adnoddau sy'n briodol i'w hoedran. Mae'r adnoddau'n cynnwys tegannau, offer cerddoriaeth, adnoddau sensori a dillad chwarae rol. Caiff yr adnoddau eu storio ar lefelau priodol a gall plant gael mynediad atynt yn annibynnol. Mae'r ardal awyr agored yn cynnwys ystod gwerthfawr o adnoddau gan gynnwys cyfleoedd i gymryd risgiau wedi eu rheoli. Er enghraifft, anogir y plant i ddefnyddio beiciau i ddod i lawr ramp o ddrysau yr adeilad. Mae adnoddau awyr agored yn cynnwys wal ddringo, cwrs rhwystrau, sleid, a byrddau picnic.

Mae gan blant fynediad annibynnol i'r adnoddau mewnol ac allanol ac maent yn cael eu storio'n briodol ac yn ddiogel. Mae'r lleoliad yn darparu ystod gwerth chweil o deganau ac adnoddau sy'n briodol i'w hoedran ac sy'n cynnal diddordeb plant. Mae'r adnoddau hyn yn cynnwys jigso rhifau, llyfrau, pwll peli, a chlustogau. Mae'r holl ddodrefn ac offer yn briodol i'w hoedran ac o ansawdd da. Mae'r holl deganau ac offer chwarae yn lân ac wedi'u cynnal a'u cadw'n dda. Arsylwyd arnynt yn cael eu glanhau yn rheolaidd yn ystod y dydd. Roedd amrywiaeth o adnoddau i hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol, dathliadau ac amrywiaeth o fewn y lleoliad gan gynnwys llyfrau a doliau.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth Da

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y lleoliad yn gadarnhaol a phwrpasol. Mae pobl sy'n rhedeg y lleoliad yn llwyddianus ac yn brofiadol ac mae ganddynt weledigaeth glir. Mae disgwyliadau pwrpasol o’r staff ganddynt, ac maent yn eu cefnogi yn effeithiol i wneud eu gorau. Adroddwyd gan bron pob aelod o staff eu bod yn cael eu hannog i ddatblygu ac fynychu hyfforddiant priodol. Mae'r Datganiad o Ddiben yn cydymffurfio a’r gofynion ac yn sicrhau gwybodaeth berthnasol a darlun buddiol i rieni o sut mae'r lleoliad yn rhedeg. Mae pobl sy'n rhedeg y lleoliad yn adolygu eu polisïau a'u gweithdrefnau yn rheolaidd ac yn sicrhau bod staff yn eu gweithredu. Maent yn sicrhau fod systemau cadw cofnodion priodol ar waith gan gynnwys contractau plant, cofrestrau presenoldeb plant, a ffeiliau staff. Mae pobl sy'n rhedeg y lleoliad yn hysbysu Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) am ddigwyddiadau fel y nodir mewn rheoliadau, gan ddarparu gwybodaeth berthnasol ar yr adegau priodol.

Mae gan bobl sy'n rhedeg y lleoliad systemau defnyddiol ar gyfer gwerthuso'r gwasanaeth. Maent yn gofyn am adborth gan rieni, a phlant gan ddefnyddio holiaduron pwrpasol. Anogir iddynt nodi unrhyw sylwadau pellach yn yr holiaduron. Defnyddir unrhyw wybodaeth yn llwyddiannus i adolygu perfformiad y lleoliad, i nodi unrhyw flaenoriaethau ar gyfer gwella ac i wella y cyfleoedd i staff a phlant. Mae pobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gwerthfawrogi eu staff. Er enghraifft nodwyd gan staff iddynt gychwyn yn lleoliad ar brentisiaethau, cyn cael rol llawn amser ac yna mewn rhai achosion yn oruchwylwyr ystafelloedd. O ganlyniad, mae ethos gwerthfawr a chadarnhaol o waith tîm o fewn y tîm staff, ac maent yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau'r cyfleoedd gorau i blant.

Mae y mwyafrif o staff y lleoliad yn brofiadol ac mae pob un yn sicrhau bod y plant yn ddiogel. Mae pobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi sicrhau bod prosesau recriwtio cadarn ar waith mewn perthynas â gwiriadau addasrwydd staff. Mae pobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnal goruchwyliaeth ac arfarniadau rheolaidd gyda’i staff sy'n annog iddynt feddwl am ansawdd eu hymarfer a chodi unrhyw bryderon ddiogelu. Maent yn sicrhau cymorth iddynt ynghyd ag amcanion i ddatblygu eu gofynion proffesiynol a hyfforddiant. Roedd y staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan reolwyr y lleoliad ac yn teimlo y gallant siarad a thrafod syniadau a phryderon gyda nhw'n hyderus.

Mae partneriaethau gyda rhieni ac asiantaethau allanol yn gadarn ac yn cefnogi gwaith y lleoliad. Mae staff yn rhannu diweddariadau dyddiol rheolaidd gyda rhieni gwyneb yn wyneb. Caiff gwybodaeth hefyd ei rannu ar ffurf electroneg. Mae gwybodaeth megis ffotograffau o weithgareddau yn cael eu rhannu ar eu gwefan neu ar dudalen breifat ar y cyfryngau cymdeithasol. Nodir yn ddyddiol gweithgareddau y diwrnod ar fwrdd hysbysebu tu allan y brif fynedfa a chynhelir cyfarfodydd rheolaidd gyda rhieni yn rheolaidd i drafod datblygiadau eu plant. Dywedodd rhieni wrthym fod eu plant yn derbyn gofal cyson ac yn teimlo eu bod yn rhan o'r lleoliad. Roedd enghreifftiau o sylwadau yn cynnwys 'mae plant

wrth eu bodd,' ac 'mae’r staff yn hawdd i siarad a hwy.' Mae gan y lleoliad bartneriaeth ddefnyddiol gyda’r ysgol lleol ac yn gwneud defnydd o fferm gyfagos, y sinema a’r llyfrgell yng Nghaernarfon.

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella / Meysydd I’w Gwella | | |
|---|---|---|
| **Rheoliad** | **Crynodeb** | **Statws** |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |
| 28 | Rheoliad 28 - Nid oedd ffeiliau staff yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn nodi nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Argymhellion ar gyfer Cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| **Safon** | **Argymhelliad (argymhellion)** |
| Standard 7 - Opportunities for play and learning | Cynyddu cyfleoedd i blant ddatblygu eu hanibyniaeth yn ystod amseroedd bwyta |
| Standard 14 - Organisation | Sicrhau cysondeb yn y rhyngweithio rhwng staff a phlant yn ystod cyfnodau bwyd. |
| Standard 24 - Safety | Ffurfioli gwiriadau Iechyd a Diogelwch dyddiol trwy gadw cofnod o’r camau a gymrwyd i sicrhau bod yr adeilad yn ddiogel cyn i blant gyrraedd. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 16/10/2024